

Mor drist

“...eto ni fynnwch ddod atat fi i gael bywyd.” (adn. 40)

Beth am ddarllen Ioan 5:31–47 ac yna myfyrio

Yr ydym am dreulio un diwrnod arall yn meddwl a chofio mai nid ein cartref yw y byd yma. Mae'r rhai hynny sydd yn cael eu perswadio mai hwn yw ein hunig gartref yn darganfod fel *Alice in Wonderland* fod eu byd, a hwythau, yn mynd yn llai. Mae byd fel hwn, er ei fod yn brydferth, eto ddim yn ddigon da i gael ei alw yn gartref. Lle i aros, ie; lle i fyw, ie; ond nid cartref, nid go iawn. Mae ceisio gwneud yn fach o'r hiraeth sydd ynom am y nefoedd, yr hiraeth am dragwyddoldeb, yn cael yr un effaith ar ein henaid a chyffuriau ar y meddwl. Maent yn arafu y meddwl, yn marwau y meddwl, llawer gwell yw gwranddo ar yr hiraeth sydd o'n mewn.

Yr wyf am gynnal fod yna rywbeth o'n mewn sydd yn gwrthod credu mai y byd yma yw y cyfan sydd gan Dduw ar ein cyfer. Cyn gynted ag y bo dyn yn teimlo ei fod wedi rhoi y dyheadau yma i gysgu, maent yn deffro eto ac yn llefain am fodlonrwydd. Nid oes yr un o'r gwahanol foddion y mae arbenigwyr y byd yma yn ei gynnig yn ateb y dyhead hwn. Mae'n debyg mai ateb ein cymdeithas i ddelio ag anesmwythyd yw darganfod eich hunan, derbyn eich hunan, meddyliwch yn dda am eich hunan. Ond y gwir plaen yw fod llawer iawn o bobl sydd wedi darganfod eu hunain heb fod yn hoff iawn o'r hyn y maent wedi ei ddarganfod. Sut y medrwrch hoffi yr hunan sydd wedi ei staenio â phechod? Mae'r rhai sydd wedi darganfod eu hunain yn dweud: “Ai hyn yr wyf wedi bod yn edrych amdano drwy fy mywyd?” ac yn gweld yn glir mai nid hwn yw pen draw eu hiraeth a'u dyhead. Os ydynt yn fodlon, maent yn anfodlon hefyd, oherwydd o'u mewn maent yn gwybod fod y gwagle yn parhau. Mae'r cyfan mor drist, yn trist iawn.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Preg. 2:17–26; 1:2; 4:16

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd casgliadau awdur llyfr y Pregethwr?
2. Beth oedd nod ei ymchwil?

Gweddi

O Dad, sut y medraf ddiolch i ti ddigon am egluro i mi ble mae fy nghartref a sut mae cyrraedd yno. Rwy'n adnabod bywyd, oherwydd fy mod yn adnabod awdur bywyd, y bywyd fydd yn para am byth. Rwyf am ddiolch i ti. Amen.